Llythrennedd yn Ysgol David Hughes

Mae safon uchel o lythrennedd yn hanfodol i'n dysgwyr er mwyn llwyddo yn eu harholiadau allanol ac yn y byd gwaith. Rydym yn hyrwyddo pwysigrwydd llythrennedd yn gyson o fewn ein gwersi ac ar draws y Cwricwlwm. (Rhestr geirfa bynciol)

Ers 2013 rydym wedi ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol gan adnabod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd ymhob pwnc (gweler map). Fel rhieni byddwch yn derbyn adroddiad blynyddol ar gyrhaeddiad eich plentyn mewn llythrennedd a fydd hefyd yn nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella safon llythrennedd eich plentyn ymhellach.

Mae sgiliau darllen ein dysgwyr yn cael eu profi'n flynyddol yn y Profion Cenedlaethol (gweler esiampl o bapur prawf darllen). Rydym yn cynnal sesiynau darllen yn ystod y cyfnod cofrestru ac mae croeso i'ch plentyn ddod a deunydd darllen sydd o ddiddordeb iddynt i'r sesiynau.

Er mwyn cefnogi rhai dysgwyr ymhellach mae gennym Anogwraig Ddysgu Llythrennedd sy'n cynnig cefnogaeth ychwanegol i grwpiau o ddysgwyr, a gweithgareddau darllen a sillafu yn y clybiau boreol.

Dyma rai adnoddau a gweithgareddau sy'n cefnogi ein dysgwyr i wella eu sgiliau llythrennedd:

- Ymarferion gloywi iaith (gweler link)
- *Keyring* cywirdeb iaith i bob dysgwr
- Cod Cywiro'r ysgol sy'n cael ei ddefnyddio gan athrawon a disgyblion i adnabod a chywiro camgymeriadau mewn gwaith ysgrifennu .
- Clwb Sillafu
- Clwb Llawysgrifen
- Cywaith *Premier League Reading Stars*
- Sesiwn ddarllen boreol yn ystod cyfnod cofrestru
- Dathlu Diwrnod y Llyfr yn flynyddol
- Creu Cylchgrawn Pontio BL.6/7 ble mae cyfle i'r dysgwyr holi a chasglu gwybodaeth; i gyfrannu erthyglau ac i olygu a chysodi'r gwaith.

Literacy at Ysgol David Hughes

A high standard of literacy is essential for our learners to succeed in their external examinations and in the world of work. We promote the importance of literacy regularly within our lessons and across the Curriculum. (Subject vocabulary list.)

Since 2013 we have responded to the requirements of the National Literacy Framework, identifying opportunities for developing literacy skills in each subject (see map). As parents you will receive an annual report on your child's attainment in literacy and this will also note what needs to be done to further improve your child's standard of literacy.

The reading skills of our learners are tested annually in the National Tests (see example of a reading test paper). We hold reading sessions during the registration period and your child is welcome to bring reading material of interest to them to these sessions.

In order to support some pupils further we have a Literacy Learning Coach who offers additional support for groups of learners, and reading and spelling activities in the morning clubs.

Here are some resources and activities which support our learners in improving their literacy skills:

- Language improvement exercises (see link)
- A language accuracy keyring for every learner.
- The school's Correction Code, which is used by teachers and pupils to identify and correct errors in written work.
- Spelling Club
- Handwriting Club
- Premier League Reading Stars Project
- Morning reading sessions during registration periods
- Celebration of World Book Day annually
- Creating a Yr. 6/7 Bridging Magazine where there is an opportunity for learners to ask questions and collect information; to contribute articles and to edit and typeset the work.